

Cyngor Cymuned Bryncrug Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Wener 23ain o Orffennaf 2021 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Bethan Lawton (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Alan H. Jones, Richard Evans, Geraint Evans

1. Ymddiheuriadau: Ni dderbyniwyd yr un ymddiheuriad

Nodwyd bod y Cynghorydd Simon Jones yn defnyddio cyfeiriad e-bost newydd.

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

3. Derbyn cofnodion 21 Mehefin 2021:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion yng nghyfarfod nesaf y cyngor.
Anfon llythyr at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddynt edrych ar osod arwydd dim chwarae gemau pêl yn Maes Hyfryd
Anfon llythyr at CNC yn eu hysbysu bod gwartheg yn dinistrio arglawdd llanw ger Ynys-y-Maengwyn
Yn dilyn derbyn ymateb gan Guthrie Jones Cyfreithwyr, i gysylltu gyda'r Gofrestrfa Tir er mwyn gofyn am gopiau o'r gweithredoedd

4. Cyfrifon i'w talu:

B Gwilym	Cyflog	101747	£188.32
Cyllid a Thollau EM	YG	101748	£47.20
Jones & Jones	Pentref	101749	£744.00
Cwmni Tân Llŷn	Pafiliwn	101750	£33.00
G.L.Jones	Offer chwarae	101751	£6,900.00
Designer Signs	Arwyddion	101752	£185.76

PENDERFYNIAD: I dalu'r anfonebau uchod.
Y Cynghorydd Bethan Lawton i drefnu tynnu llun o'r sleid newydd yn y cae chwarae er mwyn rhoi erthygl yn y wasg.

5. Hosbis Dewi Sant - Ymgyrch 500 Calon:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

6. Cyngor Cymuned Llandygai - Diffyg ymateb a cyfathrebu Cyngor Gwynedd - Cais i gyfarfod y Prif Weithredwr:

PENDERFYNIAD: I gefnogi cynnig Cyngor Cymuned Llandygai, gan ofyn i'r cyngor ystyried cysylltu gydag Un Llais Cymru er mwyn cael eu cymorth ar ran yr holl gynghorau cymuned y Sir.

7. Elan City - Arwydd mesur cyflymder modurwyr:

Yr oedd adroddiad ysgrifenedig wedi ei ddarparu i'r cynghorwyr gan y Clerc yn dilyn sgwrs teleffon gyda chwmni Elan City.

PENDERFYNIAD: I drafod y mater yn y cyfarfod cyhoeddus.

8. Cais gan aelod o'r cyhoedd am beiriant diffibrileiddio - diweddariad:

Adroddwyd bod aelod o'r cyhoedd eisoes wedi casglu £500 tuag at brynu peiriant diffibrileiddio. Adroddwyd bod Clwb Pêl-droed Tywyn a Bryncrug yn fodlon gadael y trydan ymlaen yn y Pafiliwn er mwyn pweru'r cabinet ac yn fodlon talu cost y trydan i wresogi'r cabinet.

Cafwyd wybod bod yr Ymatebwyr Cyntaf wedi tynnu'r cabinet o dafarn y Peniarth a chanfod nad yw'n addas oherwydd ei fod wedi cyrraedd diwedd ei oes.

Adroddwyd y byddai cabinet yn oddeutu £400 + TAW, gyda peiriant difibrileiddio yn £800 + TAW. Byddai hefyd cost trydanwr er mwyn gosod y cabinet.

Dywedwyd bod unigolyn ar gael yn lleol er mwyn cynnig hyfforddiant i'r cyhoedd a'r Clwb Pêl-droed er mwyn gwybod sut i ddefnyddio'r peiriant.

PENDERFYNIAD: I ofyn wrth yr aelod o'r cyhoedd sefydlu tudalen "Just Giving" er mwyn casglu rhagor o arian tuag at y cyfanswm oddeutu £1,200 sydd ei hangen.

9. Clwb Pêl-droed Tywyn a Brynchrug - cais am gymorth ariannol:

PENDERFYNIAD: I estyn gwahoddiad i swyddogion o'r clwb fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor er mwyn trafod eu cynlluniau i'r dyfodol.
I adael y cais am gymorth ariannol ar y bwrdd nes mae'r cyngor a'r clwb wedi cyfarfod.

10. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Glyn Saron, Brynchrug, LL36 9NS NP5/55/T203A):

PENDERFYNIAD: Cynghorwyr i e-bostio eu sylwadau at y Clerc er mwyn i'r Clerc ymateb ar ran y Cyngor.

11. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:

- y sleid wedi ei osod, gyda'r sleid mewn lliwiau llachar iawn
- yr oedd plant y pentref yn hapus iawn gyda'r sleid
- yr oedd contractwr y cyngor am ddechrau'r gwaith ar y suddfan ddŵr yr wythnos ganlynol
- yr oedd unigolion wedi gadael nwyddau atal cenhedlu ar y llawr ger y Pafiliwn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

12. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:

- wedi derbyn nifer uchel o gwynion gan drigolion lleol
- Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ar y fframwaith adfywio ac bydd yn gofyn am gyfarfod y cyngor cymuned er mwyn gofyn beth yw blaenoriaethau yn lleol i greu cynllun tymor hir ar gyfer y gymuned

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

13. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddwyd bod angen i Gyngor Gwynedd dorri gwrychoedd a gwair ar ymyl ffyrdd, gan nad oedd lawer o le i geir a gerddwyr.

PENDERFYNIAD: Yn Cynghorydd Bethan Lawton fel Cynghorydd Sir i gysylltu gyda'r uned berthnasol yng Nghyngor Gwynedd.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 7:55pm

Llofnod y Cadeirydd